# Adnewyddu Tŷ Hywel

14 Awst 2013

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch ichi am eich cais, a ddaeth i law ar 2 Awst, pan wnaethoch ofyn y canlynol:

*A fyddech cystal â rhoi dadansoddiad manwl o'r holl gostau yr aeth Comisiwn y Cynulliad iddynt ar gyfer y gwaith adeiladu ac adnewyddu ar gyfer 1) ail a pumed llawr Tŷ Hywel a 2) pedwerydd llawr Tŷ Hywel.*

Fel y dywedwyd wrthych pan wnaethom gydnabod y cais hwn, mae Llywodraeth Cymru, sy'n defnyddio rhan o'r ail a'r pumed llawr, hefyd yn gwneud gwaith adnewyddu i'w man gwaith.  Nid yw Comisiwn y Cynulliad yn talu am y gwaith hwn.

Cynhaliwyd Adolygiad Adeilad o ofynion mannau gwaith yn gynharach eleni i wella'r defnydd o ofod yn Nhŷ Hywel.  Drwy ail-drefnu ein mannau gwaith yn fwy effeithiol a defnyddio mannau gwag a oedd yn arfer cadw offer TGCh ar gyfer y GIG (etifeddiaeth o gyn-ddefnydd yr adeilad fel Pencadlys y GIG), rydym wedi cynyddu ein mannau gwaith yn llwyddiannus o 15 y cant.  Mae hyn wedi ein galluogi i gyd-leoli timau a gwasanaethau sy'n cydweithio'n agos i wella effeithlonrwydd ac rydym wedi manteisio ar y cyfle i ailaddurno rhannau o'r pedwerydd llawr nad oedd wedi'u hail-addurno o'r blaen, fel rhan o waith cynnal a chadw cyffredinol yr adeilad.  Bydd cynllun diwygiedig yr adeilad hefyd yn sicrhau hyblygrwydd ar gyfer y dyfodol, o ran cynlluniau safonedig.  Ceir manylion costau cysylltiedig yr Adolygiad Adeilad ar yr ail a'r pedwerydd llawr isod.

**Gwaith adnewyddu'r ail lawr, sef cyn-ystafell gweinydd y GIG, i ddarparu swyddfa i Staff y Comisiwn**

| **Gwaith** | **Costau'n cynnwys TAW (£)** |
|---|---:|
| Gwaith adnewyddu | 93,735.34 |
| Dodrefn | 31,450.80 |
| Carped | 3,384.00 |
| Ffioedd y Prosiect | 5,070.00 |
| **Cyfanswm** | **133,640.14** |

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8635
E-bost/Email: Buddug.Saer@cymru.gov.uk

**Adnewyddu pedwerydd llawr (Bloc A) i ddarparu swyddfa i Staff y Comisiwn**

| **Gwaith** | **Costau'n cynnwys TAW (£)** |
|---|---:|
| Gwaith adnewyddu | 29,451.50 |
| Dodrefn | 142,396.75 |
| Carped | 15,390.00 |
| Ffioedd y Prosiect | 6,567.42 |
| **Cyfanswm** | **193,805.67** |

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth.  Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**